Cronfa Bensiwn Cyngor Sir Powys

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Hysbysiad ar gyfer Optio Allan o'r Cynllun Pensiwn

Pan wnaethoch ddechrau eich swydd cawsoch eich ymaelodi'n awtomatig yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. **Os nad ydych** am fod yn aelod o'r cynllun pensiwn llenwch **un ffurflen ar gyfer <u>pob swydd sydd gennych</u>.**

Os cawsoch eich ymaelodi yn y cynllun mae hawl gennych optio allan. **Ni allwch lenwi ffurflen optio allan nes i chi ddechrau eich swydd.**

<u>MANYLION PERSONOL</u>			
Teitl:		**Enw Llawn:**	
Cyfeiriad Gartref:			
		Cod Post:	
Rhif ffôn:		**Dyddiad Geni:**	
E-bost:		**Rhif Yswiriant Gwladol:**	
Statws Priodasol/ Sifil:	**Sengl / Priod / mewn Partneriaeth Sifil / Wedi Ysgaru / Gweddw / Partner Sifil sydd ar ôl / Partner sy'n Cydfyw**		
Cyflogwr			
Teitl y swydd:			
Rhif Cyflog:		**Dyddiad Dechrau'r swydd:**	

<u>DATGANIAD</u>

Rwyf wedi darllen y nodiadau canllaw ar y dudalen nesaf ac rwyf wedi ystyried y buddion a gynigir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chadarnhaf fy mod am optio allan o'r cynilion pensiwn ar gyfer y swydd a nodir ar y ffurflen hon.

Rwy'n deall y byddaf yn colli'r hawl i gyfraniadau pensiwn gan fy nghyflogwr drwy optio allan ac mae'n bosibl y bydd fy incwm yn is pan fyddaf yn ymddeol.

***Llofnod**		**Dyddiad**	

*Dylid llofnodi a dyddio'r ffurflen hon **ar ôl i chi ddechrau yn y swydd** yr ydych am optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ei chyfer. Os bydd y ffurflen wedi'i llofnodi a'i dyddio cyn y dyddiad cychwyn, bydd y ffurflen hon yn **ANNILYS**.

Os byddwch yn optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae'n ofynnol i'ch cyflogwr i gydymffurfio â'r darpariaethau cofrestru awtomatig dan y Ddeddf Pensiynau 2008, gall eich cyflogwr eich **cofrestru'n awtomatig** i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar rai adegau. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr rhoi gwybod i chi os bydd hyn yn digwydd. Bydd gennych yr hawl wedi hyn i optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

				Er Defnydd Swyddogol:
Gweithredwyd gan yr Uned Gyflogau:	*Blaenlythyrau:*		*Dyddiad:*	

NODIADAU CANLLAW

Trwy lenwi'r ffurflen hon byddwch yn dewis i optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer y swydd hon a byddwch yn dewis i beidio â manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a fyddai'n darparu pecyn o fuddion wedi'u gwarantu a'u hategu gan y gyfraith, gan gynnwys:

- **pensiwn blynyddol diogel** – yn daladwy am oes ac yn cynyddu gyda chostau byw.
- **dewis o arian parod di-dreth** – gallwch gyfnewid rhan o'ch pensiwn am arian parod di-dreth.
- **dewis i ymddeol yn gynnar yn wirfoddol** – o 60 oed, neu o 55 oed gyda chaniatâd eich cyflogwr.
- **ymddeoliad oherwydd salwch difrifol** – gall eich budd-daliadau fod yn daladwy am oes gyda thaliad uwch yn bosibl.
- **colli swydd** – os ydych dros 55 oed, bydd eich buddion heb eu cwtogi yn daladwy ar unwaith.
- **yswiriant bywyd ychwanegol** - gyda chyfandaliad tair gwaith eich tâl terfynol yn daladwy, os ydych yn marw tra eich bod yn dal i weithio.
- **buddion i'r sawl sy'n goroesi** - pensiwn ar gyfer eich gŵr, gwraig, partner sifil, partner enwebedig sy'n byw gyda chi ac / neu unrhyw blant sy'n gymwys.

Os ydych yn dewis optio allan gyda llai na dwy flynedd o aelodaeth yn y Cynllun byddwch yn derbyn ad-daliad o'ch cyfraniadau pensiwn oni bai eich bod yn dewis i drosglwyddo eich pensiwn allan i gynllun pensiwn arall. Fodd bynnag, os oeddech yn y cynllun cyn 1 Ebrill 2014, ac yn optio allan gyda dri neu ragor o fisoedd ond yn llai na dwy flynedd, byddwch yn cael y dewis o gymryd ad-daliad o'ch cyfraniadau neu gael pensiwn wedi'i gohirio, (fel arfer yn daladwy o Oedran Pensiwn Gwladol) neu o drosglwyddo eich pensiwn i gynllun pensiwn arall.

Os byddwch yn optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn cyflogaeth (ac eithrio mewn cyflogaeth gydamserol) ar neu ar ol 11 Ebrill 2015 gyda hawl i fudd wedi'i ohirio ac wedi hynny'n ail-ymuno â'r cynllun ni fyddwch yn gallu cydgasglu'r cyfnodau o aelodaeth at ei gilydd.

Os byddwch yn para i fod wedi optio allan, bydd eich cyflogwr yn eich rhoi yn ôl i mewn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol tua **3 blynedd** o'r dyddiad y mae'n rhaid iddyn nhw gydymffurfio â gofynion cofrestru awtomatig y Ddeddf Pensiynau 2008. Fodd bynnag, unwaith eto bydd hawl gennych ar y pryd hynny i optio allan o fod yn aelod o'r cynllun.

Byddwch yn gallu ailymuno â'r Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar unrhyw bryd os ydych dan 75 oed ac os ydych yn para i fod mewn swydd sy'n golygu eich bod yn gymwys i fod yn aelod o'r cynllun. Bydd angen i chi lenwi 'ffurflen 'optio i mewn' os ydych am ailymuno â'r cynllun, cysylltwch â'ch cyflogwr neu lawrlwythwch ffurflen o www.cronfabensiwnpowys.org.

Ni all eich cyflogwr ofyn i chi optio allan nac ychwaith eich gorfodi i optio allan. Os oes rhywun yn gofyn i chi optio allan neu'n eich gorfodi i wneud hynny gallwch roi gwybod i'r Rheolydd Pensiynau - gweler www.thepensionregulator.gov.uk.

Os oes gennych swydd arall gyda chyflogwr arall, efallai bydd y cyflogwr hwnnw yn eich ymaelodi mewn pensiwn, nawr neu yn y dyfodol. Bydd y ffurflen hon yn eich optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer y cyflogwr a'r swyddi rydych wedi'u nodi ar y ffurflen hon yn unig. Rhaid i chi lenwi ffurflen optio allan a'i rhoi i unrhyw gyflogwr arall yr ydych yn gweithio iddo os ydych am optio allan o'r pensiwn gyda'r cyflogwr hwnnw.

Fel arfer, os byddwch yn newid cyflogwr bydd eich cyflogwr newydd yn eich ymaelodi chi mewn pensiwn ar unwaith.

Dychwelwch y ffurflen hon i'ch cyflogwr, os NAD ydych wedi'ch cyflogi gan Gyngor Sir Powys.
Fel arall anfonwch y ffurflen at: Yr Adran Bensiynau, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG.

Ewch i'n gwefan www.cronfabensiwnpowys.org i gael rhagor o wybodaeth
Neu cysylltwch â ni pensiynau@powys.gov.uk